**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA - P/MD/5775/16

Simon Thomas AM/AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

8 Gorffennaf 2016

**Annwyl Simon**

Croesewais y cyfle i fod yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 28 Mehefin i gefnogi eich gwaith craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2016-17.

Yn ystod y sesiwn honno, cawsom gyfle i drafod y cynllun rhyddhad ardrethi busnes £1.5m ar gyfer Ardal Fenter Glannau Port Talbot, a gafodd ei gyhoeddi gan y Llywodraeth flaenorol. Dywedais y byddwn i'n ysgrifennu ynghylch y dystiolaeth am nifer y swyddi a fyddai'n cael eu creu o dan y cynllun.

**Ardaloedd Menter a chynlluniau Ardrethi Busnes**

Yn ôl y dystiolaeth a gasglwyd oddi wrth fusnesau ar draws yr Ardaloedd Menter yng Nghymru, ardrethi busnes sy'n cael eu crybwyll fwyaf aml fel rhwystrau i geisio cyflawni amcanion busnes.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn monitro data ar swyddi a grëwyd ar gyfer y Cynllun Ardrethi Busnes Ardaloedd Menter ar wahân. Rydyn ni yn monitro canlyniadau a gyflawnwyd yn erbyn rhai dangosyddion perfformiad allweddol sy'n adlewyrchu hyd a lled y cymorth a ddarperir yn yr Ardaloedd Menter. Yn gyffredinol, nid yw effaith rhyddhad ardrethi busnes ar draws y DU yn cael ei mesur drwy nifer y swyddi a grëwyd neu a gynorthwy-wyd.

Dros bedair blynedd ariannol, mae'r Cynllun Ardrethi Busnes Ardaloedd Menter wedi cynnig mwy na £9 miliwn o gymorth i fwy na 200 o fusnesau. Er ei bod hi'n rhy gynnar gwneud sylwadau ar lwyddiant y cynllun ardrethi busnes yn Ardal Fenter Port Talbot, yn ôl yr amcangyfrifon, gallai'r Cynllun gefnogi hyd at 60 o fusnesau yn ystod 2016-17.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn fwy cyffredinol, mae Llywodraeth Cymru yn adrodd yn rheolaidd yn erbyn swyddi a gefnogir a dangosyddion perfformiad allweddol eraill yn ein Ardaloedd Menter fel ffordd o ddangos cynnydd. Mae data o'r fath yn cael eu cyhoeddi yn: http://llyw.cymru/topics/businessandeconomy/growing-the-economy/enterprisezones/?skip=1&lang=cy a bydd data ar berfformiad ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16 yn cael eu cyhoeddi cyn hir.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd ichi gwblhau eich gwaith craffu ar y gyllideb hon.

Yn gywir



**Mark Drakeford AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government